



LLEISIAU PENNAL

<https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/>

FFARWELIO BLWYDDYN 6



Ar ddiwedd blwyddyn rydym yn ffarwelio gyda 5 o ddisgyblion Blwyddyn 6. Bydd Tomos, Jack, Leafin, Cali a Jesse yn cychwyn yn Ysgol Bro Hyddgen yn mis Medi a phob lwc iddynt. Byddwn yn eich methu yn Ysgol Pennal. Cawom Wasanaeth ffarwelio Dydd Mawrth olaf y tymor gyda rhieni yn ymuno â ni. Yn y prynhawn, cawsom brynhawn hwyl wedi ei drefnu gan Flwyddyn 6.




COEDTIR ANIAN



Roedd y profiad yng Nghoetir Anian yn wych. Mwynhaodd y plant hynaf y gweithgareddau creadigol a oedd ar gael - o beintio gyda mwd i greu gwaith printio naturiol. Cafodd y plant gyfle i fwynhau rhyddid drwy gydol y dydd ac i ymgolli ym myd natur. Roedd cyffro a brwdfrydedd y plant yn glir iawn i'w weld. Diolch yn fawr i Clarissa am drefnu y diwrnod llwyddiannus.




CELF COEDTIR ANIAN



Yn y sesiynau celf a ddilynodd yr ymweliad i Coedtir Anian, cafodd y plant brofiadau newydd wrth weithio gyda 'mod roc' a'i roi ar eu croen. Roedd gweld y plant yn dangos gofal tuag at ei gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol yn bleser mawr. Mwynhaodd y plant greu ffyn swigod eu hunain a dilyn cyfarwyddiadau. Unwaith eto, roedd hyn yn golygu bod rhaid iddynt gydweithio â'i gilydd.

Yn dilyn ymweliad Clarissa a Teia, cynigiodd hyn y cyfle i ni wneud ychydig o waith barddoni.



CELF BWYD



Rydym ni yn ymarfer ffurfio teulu 'l'. Mae 't' yn aelod o'r teulu. Rydym ni wedi defnyddio ein dychymyg i greu tractor yn ein gwrs 'celf bwyd'. Y cynhwysion oedd bara gwyn, ciwcymbyr, 'Rice Crispies', 'Corn Flakes', a chylllell a bwrdd torri oedd yr offer. Siâp petryal oedd y 'bonnet', yr injan a'r cab. Triongl ongl sgwâr ydi sedd y gyrrwr, sgwâr ydi'r bwced blaen neu'n 'front loader' a siâp trapesiwm ydi'r bwced ôl neu'r back loader'. Crystun siâp syth ydi'r breichiau, cylchoedd ciwcymbr ydi olwynion y tractor a hanner cylchoedd ciwcymbr ydi'r tir.

Fel ac a ddwedwyd gan Patrick a Silyn.



T am tŷ oedd ein celf bwyd wythnos arall. Roedd raid i ni ddarllen a dilyn y cyfarwyddiadau i ddarganfod sut i greu y tŷ. Rydym ni wedi torri crystiau wedyn sillafu tŷ gyda nhw a gwneud siâp tŷ efo un darn o fara siâp sgwâr. Roedd angen i ni dorri darn arall o fara o gornel i gornel i greu triongl ongl sgwâr i wneud to. Dau sgwâr bach a petryal oedd ffenestri a drws y tŷ. Mwy a grystiau oedd y ffens. Os oedd gennym ni grystiau ar ôl roedd raid i ni adeiladu t efo nhw. Wrth wneud celf bwyd, mae'n rhaid i ni ddatrys problemau hefyd. Rhaid i ni ddarllen y dderbynneg, darganfod cost bob eitem, darganfod cyfanswm y gost a defnyddio Ceri cyfrifiannell i wybod faint o newid gafodd Mrs Lockett. Rydym ni wedi bod yn dysgu ysgrifennu symbol punt a defnyddio'r pwynt degol i wahanu'r punnoedd a'r ceiniogau yn gywir hefyd.

Fel ac a ddwedwyd gan Ayda, Emilia, Llewyn a Silyn.

CITIAU CYDBWYSO

Rydym ni wedi bod yn dysgu sut mae cyd-weithio'n ddiogel a datrys problemau efo'r blociau a'r planciau. Mae planciau hir fflat a phlanciau siâp hanner silindr. Dim ond un darn ar y tro rydym ni'n cael ei gario, ac rydym yn cario o dan y fraich rhag i ni daro ffrindiau yn y gwyneb! Rydym ni wedi bod yn ymarfer defnyddio geiriau fel ar draws, heibio, o dan, dros, drwy ac o amgylch ar ôl adeiladu cwrs rhwystrau syth a chylched.

Fel ac a ddwedwyd gan Patrick, Oskar, Mabli, Efa ac Abi.



RYGBI TAG YR URDD

Ar ôl sawl ymgais i gynnal twrnamaint Rygbi tag yr Urdd (wedi ei ohirio oherwydd y glaw) roedd y diwrnod mawr wedi cyrraedd o'r diwedd! Aeth tîm brwdfrydig o blant o flwyddyn 3 a 4 i'r Bala. Roeddent wrth eu boddau yn cael cymryd rhan yn y twrnamaint ar ôl ymarfer mewn sesiynau ymarfer corff am sawl wythnos. 'Cefais i hwyl yn cael chwarae rygbi tag efo fy ffrindiau' - medd Jack. 'Fy hoff ran i oedd gwneud 'come back' ar ôl meddwl ein bod ni am golli gêm. Wnes i sgorio 7 cais!' - medd Curig. Daeth pawb yn ôl i'r ysgol yn socian, ond gyda gwên fawr ar eu hwynebau.



CRICED YR URDD

Aeth tîm o'r ddwy ysgol i Dywyn i gystadlu yng nghystadleuaeth Criced yr Urdd am y tro cyntaf. Roedd y profiad yn gyfle gwych i'r disgyblion roi eu sgiliau ar waith ar ôl bod yn ymarfer criced yn ystod eu sesiynau Addysg Gorfforol yn yr ysgol.

Mwynhaodd y plant y diwrnod yn fawr, gan arddangos gwaith tîm, ymdrech ac ymddygiad rhagorol drwy gydol y gemau. Roedd yn brofiad gwerthfawr i bawb a gymerodd ran.



DIWRNOD RHIF

Rydym wedi bod yn gwneud tasgau cyfeiriannu brawddegau rhif adio, tynnu, lluosu a rhannu ar Ddiwrnod Rhif Cenedlaethol. Rydym ni yn gallu darllen map yn well rŵan. Cawsom ni wneud brawddegau rhif efo bwyd hefyd. Dewisodd rai ddangos ffracsiwn gyda brechdan a chrystiau, a gwnaeth eraill ddau driongl ongl sgwâr allan o frechdan gan dorri o gornel i gornel. Tasgau bwyd ydi'n hoff dasgau!


Fel ac a ddwedwyd gan Llewyn, Silyn, Emilia ac Ayda.



DIWYDIANT LLECHI ARCHIFYD

Dydd Llun, 8fed o Fehefin 2026 daeth Gwyn Llewelyn Ellis o Archifyd Gwynedd i'r ysgol fel rhan o brosiect LleCHI LleNI. Cafodd y disgyblion gyflwyniad difyr ac addysgiadol am "Y Diwydiant Llechi yng Ngwynedd", gan roi cipolwg gwerthfawr ar hanes a phwysigrwydd y diwydiant i'n hardal leol.

Roedd y sesiwn yn gyfle gwyb i'r plant ddyfnhau eu dealltwriaeth o dreftadaeth yr ardal ac i baratoi ar gyfer y gweithgareddau pellach a drefnwyd fel rhan o'r prosiect.



LLECHI LLENNI

Cawsom weithdy 3 diwrnod fel rhan o brosiect LleCHI LleNI yn ystod mis Mehefin. Cyflwynwyd Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru gan Ffion Meleri Gwyn. Cafodd y disgyblion grynodedb o hanes chwareli'r fro, ac yna chreu golygfeydd ar gyfer animeiddiad stop motion. Daeth Martyn Hall, sy'n arbenigwr mewn rheilffyrdd yr ardal i ddangos y modeli bychan o wagenni a threnau'r rheilffordd, Tal y Llyn, Corris a Pennal mae wedi ei greu. Cafodd y disgyblion weld pa fath o gerbydau oedd y chwarelwyr yn defnyddio i gludo'r llechi. Daeth Mat o gwmni MSparc atom ar yr ail ddiwrnod a chreu animeiddiad a chafodd y disgyblion gyfle wedyn i droi'r gwaith celf yn stori fyw.



TAITH GERDDED A GWIN

Daeth tua cant o bobl ynghyd ddydd Sadwrn, 20fed o Fehefin i ymuno â'r Daith Gerdded a Gwin. Mae'r diwrnod hwn yn llwyddiannus bob blwyddyn, ac eleni codwyd swm arbennig o £1,600 tuag at Ysgol Pennal.

Roedd y daith dractorau yn brofiad hwyliog i bawb, gyda golygfeydd prydferth ar hyd y ffordd. Cawsom groeso cynnes gan Tony a Christine Scutt, yn ogystal â Robat Huw a Megan, lle cafwyd seibiant pleserus gyda diod a lluniaeth.

Diolch yn fawr i Glyn a Corina, a Rhys a Siân am drefnu'r diwrnod, ac i'r gymuned am eu cefnogaeth barhaus. Diolch hefyd i Glan yr Afon am ganiatáu i ni ddechrau a gorffen y daith yno, ac am ddarparu brechdanau a sglodion blasus ar y diwedd.



PENBLWYDD 100 OED



Ar yr 8fed o Fai roedd pen-blwydd Sir David Attenborough. Mae David Attenborough yn rhywun sydd yn siarad am anifeiliaid a phlanhigyn a phethau ni ddim yn sylwi sydd yn digwydd yn y byd. I ddathlu, rydym ni wedi cael tasgau i wneud oedd yn cynnwys 100! Un o'r tasgau oedd gwneud pethau 100 gwaith fel neidio 100 gwaith, ysgrifennu enw 100 gwaith, rollo dis 100 gwaith, dweud pen-blwydd hapus 100 gwaith a chyfri i gant 100 gwaith. Rydym ni wedi gwneud yr heriau 5 gwaith er mwyn gweld os oeddwn yn gwella bob tro. Fy hoff ran oedd creu 100 allan o bethau naturiol .

Ysgrifenydwyd gan Leafin

GLANLLYN

Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 i 6 y ddwy ysgol brofiad cyffrous a chofiadwy yn ddiweddar yng Nghanolfan Glan-llyn, lle buont yn aros dros nos. Yn ystod eu harhosiad, bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau anturus, gan gynnwys canwio a phadlfyrddio ar y llyn, cwrs rhaffau, dringo waliau ac adeiladu rafftau.

Roedd y profiad yn gyfle gwych i ddatblygu hyder, cydweithio a sgiliau newydd, gyda phawb yn mwynhau pob eiliad o'r antur.



TRIP YSGOL

Diolch yn fawr iawn am gael mynd ar drip i Gelligyffwrdd. Roedd yn grêt cael eistedd ar y bws, siopa, bwyta picnic, gwyllo sioe clown, mynd ar y cychod, y beics, y sleidiau, a chwarae yn y parciau a'r lle chwarae meddal efo'n ffrindiau. Gobeithio y bydd pawb yn ddigon tal i ni gael mynd ar a'r reid y ddraig werdd a'r sleidiau dŵr yn annibynnol tro nesaf! Fel ac a ddwedwyd gan Silyn, Llewyn, Ayda, Emilia, Efa, Mabli, Abi, River, Willow, Patrick ac Oskar.



ATHLETAU'R URDD



Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion fu'n cystadlu yn Athletau'r Rhanbarth Meirionnydd yr Urdd Nos Fawrth yn Harlech. Roedd llwyddiant arbennig i'r Ffederasiwn a phob un wedi cystadlu'n wych.

Taflu gwaywffon Bechgyn Blwyddyn 6 - Otis Jones (1af 🏆)

Ras rhedeg Merched Blwyddyn 5 - Melys Morus-Baird (1af 🏆)

Naid Hir Merched Blwyddyn 5 - Melys Morus-Baird (1af 🏆)

Ras Rhedeg Bechgyn Blwyddyn 5 - Marc Milner-Culier (1af 🏆)

Taflu shot Bechgyn Blwyddyn 3 - Gruff Jones (2il 🥈)


Ras rhedeg Merched Blwyddyn 4 - Elain Puw (2il 🥈)

Ras rhedeg Bechgyn Blwyddyn 4 - Curig Breese (2il 🥈)

Taflu gwaywffon Merched Blwyddyn 5 - Melys Morus-Baird (3ydd 🥉)

Taflu shot Merched Blwyddyn 5 - Melys Morus-Baird (3ydd 🥉)

Llongyfarchiadau mawr i bawb gynrychiolodd y Ffederasiwn. Rydym yn falch iawn ohonych i gyd!



Urdd



CELFF SIOE PENNAL

Mae Deinosor Dychymyg wrth ei fodd efo ni! Mae Mochyn Mwynhau wrth ei fodd efo ni hefyd am ein bod ni'n cael hwyl diwedd tymor yn defnyddio ein dychymyg wrth wneud lluniau thema'r Haf, addurno weli a chreu cadw mi gei unigryw i ni ein hunain yn barod i gystadlu yn Sioe Pennal. Rydym ni'n edrych ymlaen i gynilo, cyfrif a gwario yr arian yn ein cadw mi gei! Fel ac a ddywedwyd gan Emilia, Ayda, Llewyn a Silyn.



MABOLGAMPAU

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Ffederasiwn yn Ysgol Dyffryn Dulas a bum yn lwcus iawn o'r tywydd eleni. Cawsom llawer o hwyl yn cymryd rhan yn gwahanol weithgareddau yn ystod y dydd. Roedd yna dipyn o gystadleuaeth rhwng y tri dim a daeth tim Sychan yn gyntaf eto eleni.

SIOE GERDD

Ar ddydd Gwener 19eg o Fehefin, cafodd disgyblion Blwyddyn 3 i 6 ymweld â Chanolfan Celfyddydau Aberystwyth. Mwynhaodd y disgyblion wyllo'r sioe gerdd boblogaidd Miss Prydderch, gan fwynhau perfformiad bywiog a llawn cerddoriaeth. Roedd pawb wedi mwynhau'r diwrnod yn fawr.




TYWYDD BRAF



Yn y gegin fwd rydym ni wedi bod yn gwneud bwyd hud i helpu bod yn hapus a diogel yn yr haul hefyd. Roedd het, sbectol, eli, dŵr a dail i roi cysgod yn y bwyd hud! Rydym ni wedi bod yn dysgu rhoi cyfarwyddiadau i bobl eraill sut i fod yn hapus a diogel yn yr haul. Rydym ni wedi defnyddio geiriau - wch fel gwisgwch, rhowch ac arhoswch. Rydym ni wedi bod yn defnyddio geiriau trefnol hefyd fel yn gyntaf, yn ail, yn drydydd ac yn olaf. Fel ac a ddwedwyd gan Ayda ac Emilia.



YSGOL PENNAL



Rydym ni wedi bod yn dysgu sut i fod yn hapus a diogel yn yr haul! Rydym ni wedi bod yn ymarfer gwisgo Tedi Tywydd i fod yn hapus a diogel yn yr haul hefyd. Rydym ni i gyd yn gallu rhoi eli haul yn annibynnol heb wneud lot o lanast rwan! Un o'n tasgau ysgrifennu ni oedd creu rap newydd i ni gael cofio sut i edrych ar ôl ein hunain yn yr haul: Het, 'sbectol, eli, dŵr ac aros yn y cysgod i gadw'n cŵl! Hapus a diogel yn yr haul 'dwi'n siŵr! Fel ac a ddwedwyd gan Ayda, Efa ac Emilia.



Tasg diwedd tymor y tŷ tyrchu oedd adeiladu castell tywod. Tasg adeiladu a chwalu. Er mwyn herio ein hunain roedd raid i ni adeiladu cestyll wedyn defnyddio geiriau trefnol wrth eu chwalu un ar y tro. Fel ac a ddwedwyd gan Llewyn a Silyn.

GARDDIO

Mae plant Ysgol Pennal wrth eu boddau yn garddio. Tyfwyd tatws eto leni mewn bwcedi. Prynawn Dydd Mercher ola'r tymor, tynnwyd y tatws a'u golchi cyn ei pilio ar gyfer gwneud sglodion fel pryd ola Blwyddyn 6 yn yr ysgol.



Tatws!



Sglodion!

